# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2024**

**TGAU**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - UNED 2**
**HAEN UWCH**
**3010NB0-1**

© WJEC CBAC Cyf.

## Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu’r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 2 - HAEN UWCH**

**HAF 2024 CYNLLUNIAU MARCIO**

**Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr**

1.1 Gellir sôn am ddigwyddiadau megis:

- Cariad yn datblygu rhwng Meredydd ac Einir drwy gydol y nofel – golygfeydd penodol e.e. cyfarfod yn yr Erddig, yn nhŷ Meredydd, ar y traeth, pan mae'r plismyn yn chwilio am Richard Jones.
- Cariad Huw Gwastad Hir at ei chwaer – Huw yn bygwth ac yn ymosod ar Meredydd i amddiffyn ei chwaer. Amddiffyn ei chwaer yn y cartref hefyd.
- Gareth Hughes yn amddiffyn Meredydd - Gareth Hughes yn trefnu i ymosod ar Huw pan oedd wedi meddwi.
- Gladys yn dangos cariad drwy amddiffyn ei theulu.
- Gwyndaf Pritchard a'i wraig, Margaret yn dangos cariad at Meredydd drwy ei helpu i glirio ei gartref ar ôl i'r heddlu adael llanast yno.
- Criw yr Wylan Wen yn dangos cyfeillgarwch ato.
- Wil Garej a'i wraig Mair yn gofalu am Meredydd ar ôl i Huw ymosod arno.

| | |
|---|---|
| **16-20** | • dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r testun<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn effeithiol i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• *cyflwyno gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **10-15** | • dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r testun<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn addas a phwrpasol i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol<br>• *cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-9** | • dangos dealltwriaeth eithaf da<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn eithaf da i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau<br>• *cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **0-3** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• cyfeirio at ambell ddigwyddiad/enghraifft<br>• defnyddio ambell ddyfyniad<br>• *cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |

© WJEC CBAC Cyf.

1.2 Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Tensiwn y darn yn cyflymu wrth iddo fynd heibio Tan Ceris “ei galon guro’n gyflymach”.
- Brawddegau byrion “Ac yna dychrynodd” i gyfleu ei ddychryn ar ôl gweld tai ar y cae.
- Rhestru “Tŷ gwydr. Ffensi. Gerddi taclus. Tai.” yn dangos ei banig.
- Cyffelybiaeth “Curai ei galon fel gordd” yn cyfleu’r teimlad o banig.
- “Yn laddar o chwys” yn dangos cyflwr ei feddwl.
- Trosiad “daeth y gwirionedd yn don rewllyd drosto” yn dangos realiti’r sefyllfa.
- Ansoddair “trawodd y brêc yn ffyrnig â’i droed” yn dangos cryfder ei deimladau ar ôl gweld y tai.

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dadansoddi’n dreiddgar nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan gynnwys rhesymau perthnasol<br>• ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull/techneg a’r defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar |
| **5-7** | • trafod nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan roi rhai rhesymau<br>• trafod addasrwydd arddull/techneg a'r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda |
| **2-4** | • disgrifio nodweddion ffurf, cynllun, awyrgylch ac ymgeisio i fynegi barn am eu priodoldeb<br>• dangos dealltwriaeth o arddull/techneg a'r defnydd o iaith<br>• defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol |
| **0-1** | • ymgais i ddisgrifio rhai nodweddion megis ffurf, cynllun ac awyrgylch<br>• cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull/techneg a defnydd o iaith<br>• defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol |

1.3 Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Hanes Meredydd yn cyrraedd yn ôl drws nesa - ddim yn teimlo ei fod wedi cael ei gosbi am yr hyn a wnaeth i Bethan.
- Sôn am y cyhuddiad yn erbyn Meredydd a'i bod hi'n meddwl ei fod yn euog.
- Gweld Meredydd yn siop Harri Jôs - ddim yn cuddio ei theimladau o gwbl "*Ond mae'r Bod Mawr yn mynd â phobl dda o'r byd yma'n tydi ac yn gadael i giaridyms grwydro'r lle 'ma fel mynnon nhw".*
- Ddim yn meddwl llawer o Einir a'r berthynas rhyngddi hi a Meredydd. Cael ei chorddi wrth eu gweld yn hapus.
- Dal yn flin efo Meredydd am ddwyn y sylw oddi wrthi flynyddoedd yn ôl ar ôl iddi hi golli ei gŵr, Wil.
- Richard Jones bron a'i tharo ger ei chartref.
- Blin efo Gareth Hughes y plismon am beidio â chymryd ei chwynion o ddifri.
- Teimlo'n unig yn y tŷ - dim teulu a neb yn galw heibio. Colli ei gŵr, Wil
- Cwyno am bobl y pentref e.e. Now Tan Ceris.
- Teimlo nad yw ei chalon yn gryf iawn ar ôl popeth sydd wedi digwydd iddi dros y blynyddoedd diwethaf.

| | |
|---|---|
| **8-10** | • llwyddo i ddehongli'r testun yn dreiddgar a threfnus<br>• gwybodaeth fanwl am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n dreiddgar â theimladau'r cymeriadau<br>• *defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu yn sensitif ac yn briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **5-7** | • ymateb i'r testun yn fyw a threfnus<br>• dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n effeithiol â theimladau'r cymeriadau<br>• *dealltwriaeth dda o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **2-4** | • ymateb lled drefnus gyda chyffyrddiadau diddorol wrth ymateb i'r testun<br>• dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n eithaf da â theimladau'r cymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-1** | • dangos ymdrech i gyflwyno'n ddiddorol gan ddangos trefn mewn rhannau o'r gwaith<br>• dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i uniaethu â theimladau'r cymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth fras o ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |

© WJEC CBAC Cyf.

## I Ble'r Aeth Haul y Bore?

2.1 Gellir sôn am ddigwyddiadau megis:

- Cariad Chico at ei fab wrth iddo ddial ar Dicks a'i ddynion am farwolaeth erchyll ei fab.
- Cariad Haul y Bore at ei chartref wrth iddi amddiffyn ei bro a'i bywoliaeth rhag y Cotiau Glas – ymosod ar y Cotiau Glas a pheryglu ei bywyd.
- Kit Carson yn dangos ei gariad tuag at yr Indiaid drwy ddial ar Victor Dicks am gamdrin yr Indiaid, am dreisio Haul y Bore a llofruddio Chiquito.
- Cariad Kit Carson at yr Indiaid. Mae'n teimlo ei fod yn perthyn i'r Indiaid ac yn rhannu eu poen a'u brwydr yn erbyn y dyn gwyn. Drwy fyw gyda'r Indiaid mae Carson yn dod i ddeall eu ffordd o fyw a pharchu eu traddodiadau.
- Y cyfeillgarwch rhwng y ddau lwyth o Indiaid – Y Nahavo a'r Apache. Pan mae Haul y Bore a Chico'n priodi, mae'r ddau lwyth yn uno.
- Cariad ac undod rhwng Kit Carson a Chico.
- Cariad rhwng Haul y Bore a Chico – nifer o ddigwyddiadau yn eu huno e.e. marwolaeth eu mab.

| | |
|---|---|
| **16-20** | • dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r testun<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn effeithiol i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• *cyflwyno gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **10-15** | • dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r testun<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn addas a phwrpasol i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol<br>• *cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-9** | • dangos dealltwriaeth eithaf da<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn eithaf da i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau<br>• *cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **0-3** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• cyfeirio at ambell ddigwyddiad/enghraifft<br>• defnyddio ambell ddyfyniad<br>• *cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |

© WJEC CBAC Cyf.

2.2 Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Trosiad ar y dechrau “ton o ryddhad” ar ôl iddi sylweddoli nad oedd Dicks am ei saethu.
- Brawddeg fer “Na!” wrth i Dicks gipio Chiquito oddi arni.
- Berf “Fferodd” i ddangos ofn Haul y Bore.
- Cytseiniaid caled “llanwyd ei llygaid â dychryn” yn dangos erchylltra’r digwyddiad.
- Ailadrodd/brawddegau byrion “Roedd hi eisiau chwydu. Chwydu ei pherfedd ar y borfa. Roedd hi eisiau marw. Marw fel ei Chuiqito.” yn cyfleu ei phanig.
- Cyfres o ferfau cryno yn dangos pa mor sydyn roedd hi wedi ymateb i’r sefyllfa erchyll “Gafaelodd yn ei wallt a’i dynnu o’i wreiddiau. Gwthiodd ei bysedd i’w cheg a’u brathu’n galed.”

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dadansoddi’n dreiddgar nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan gynnwys rhesymau perthnasol<br>• ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull/techneg a’r defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar |
| **5-7** | • trafod nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan roi rhai rhesymau<br>• trafod addasrwydd arddull/techneg a'r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda |
| **2-4** | • disgrifio nodweddion ffurf, cynllun, awyrgylch ac ymgeisio i fynegi barn am eu priodoldeb<br>• dangos dealltwriaeth o arddull/techneg a'r defnydd o iaith<br>• defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol |
| **0-1** | • ymgais i ddisgrifio rhai nodweddion megis ffurf, cynllun ac awyrgylch<br>• cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull/techneg a defnydd o iaith<br>• defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol |

© WJEC CBAC Cyf.

2.3 Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Darganfod Haul y Bore mewn cyflwr mor wael.
- Gweld ei bod wedi geni plentyn ond nid yw'n gwybod ble mae'r plentyn.
- Mynd â hi'n ôl i'r gwersyll - clywed stori Quanah.
- Stori Quanah – ymosodiad y Cotiau Glas ar y gwersyll.
- Gwthio cleddyf i stumog Chiquito a thorri ei ben.
- Haul y Bore'n ceisio trywanu Dicks â chyllell.
- Dicks yn treisio Haul y Bore.
- Haul y Bore yn taro Dicks ac yn ei frathu.
- Manuelito'n poeni bod Herrero Grande wedi arwyddo'r cytundeb â Canby ar frys.
- Penderfynu dychwelyd i Geunant de Chelley.
- Taflu'r esgidiau lledr a gafodd gan Canby i'r tân.

| | |
|---|---|
| **8-10** | • llwyddo i ddehongli'r testun yn dreiddgar a threfnus<br>• gwybodaeth fanwl am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n dreiddgar â theimladau'r cymeriadau<br>• *defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu yn sensitif ac yn briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **5-7** | • ymateb i'r testun yn fyw a threfnus<br>• dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n effeithiol â theimladau'r cymeriadau<br>• *dealltwriaeth dda o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **2-4** | • ymateb lled drefnus gyda chyffyrddiadau diddorol wrth ymateb i'r testun<br>• dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n eithaf da â theimladau'r cymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-1** | • dangos ymdrech i gyflwyno'n ddiddorol gan ddangos trefn mewn rhannau o'r gwaith<br>• dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i uniaethu â theimladau'r cymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth fras o ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |

## Llyfr Glas Nebo

3.1 Gellir sôn am ddigwyddiadau megis:

- Cariad Rowenna at y byd wedi'r Terfyn – bywyd distaw, byd natur, syml.
- Rowenna a Gaynor - Gaynor wedi ei helpu hi drwy roi swydd iddi yn y Siswrn Arian, hwyluso symud o fflat i'r tŷ, yn deall Rowenna ac yn sensitif i'w theimladau, magu Siôn; disgrifio'r siop "fel y lle mwyaf saff yn y byd". Rowenna'n mynd i chwilio am Gaynor i'r siop yn syth ar ôl y Terfyn.
- Cariad rhwng Rowenna a Gwion, tad Dwynwen; *"Fuodd na'r un dyn mor hapus i 'ngweld i â Gwion, a theimlais i erioed atyniad mor reddfol, heb gymhlethdod".*
- Ei pherthynas â Gwion sy'n gwneud i Rowenna weld cariad mewn ffordd wahanol i'r hyn ydoedd yn ei bywyd blaenorol. "*Dwi'n meddwl bod cariad yn perthyn yn well i'r byd newydd yma nag oedd o i'r un cyn Y Terfyn".*
- Cariad dwfn Rowenna a Siôn. Perthynas agos gan y ddau "ni yn erbyn y byd" – Siôn yn gofalu amdani – yn hela am fwyd er mwyn iddi gael cig ar ei phen blwydd.
- Cariad Rowenna a Dwynwen.
- Cariad brawd a chwaer – Siôn a Dwynwen.
- Cariad Siôn at fyd natur/llyfrau.

| | |
|---|---|
| **16-20** | • dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r testun<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn effeithiol i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• *cyflwyno gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **10-15** | • dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r testun<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn addas a phwrpasol i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol<br>• *cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-9** | • dangos dealltwriaeth eithaf da<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn eithaf da i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau<br>• *cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **0-3** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• cyfeirio at ambell ddigwyddiad/enghraifft<br>• defnyddio ambell ddyfyniad<br>• *cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |

© WJEC CBAC Cyf.

3.2 Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Defnydd o’r synhwyrau wrth ladd yr anifail – y gyllell, y teimlad, y sŵn.
- Euogrwydd – yr anifeiliaid yn edrych arno “Ma nhw i gyd yn sbio arna i wrth iddyn nhw farw.”
- Brawddeg fer “Y teimlad.”
- Cyferbyniad “y gyllell ysgafn yn drwm yn fy llaw.”
- Clywed sŵn crio’r ysgyfarnog.
- Brawddeg fer – ”Roedd y sgwarnog yn crio.”

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dadansoddi’n dreiddgar nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan gynnwys rhesymau perthnasol<br>• ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull/techneg a’r defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar |
| **5-7** | • trafod nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan roi rhai rhesymau<br>• trafod addasrwydd arddull/techneg a'r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda |
| **2-4** | • disgrifio nodweddion ffurf, cynllun, awyrgylch ac ymgeisio i fynegi barn am eu priodoldeb<br>• dangos dealltwriaeth o arddull/techneg a'r defnydd o iaith<br>• defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol |
| **0-1** | • ymgais i ddisgrifio rhai nodweddion megis ffurf, cynllun ac awyrgylch<br>• cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull/techneg a defnydd o iaith<br>• defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol |

3.3 Gellir sôn am bwyntiau megis:

| **Derbyn Goriadau'r Tŷ** | **Wedi i'r Trydan Ddiffodd** | **Ail-ymweld â'r Pentref** |
|---|---|---|
| • Tŷ bach o dan y mast yn Nebo.<br>• Tŷ gan fab Nancy Parry.<br>• Y fam wedi symud i gartref.<br>• Talu rhent bob mis.<br>• Dal i ymweld â Rowenna.<br>• Nos Wener agor potel o win.<br>• Paned o de neu siocled poeth.<br>• Gwylio sothach ar y teledu.<br>• Gwylio bywydau celwyddog pobl ar Facebook.<br>• Unig, tawel a swil. | • Gadael ei gwaith yn y siop Trin Gwallt.<br>• Gyrru i Tesco - prynu bwydydd sych.<br>• Mynd i B&Q - prynu hoelion, sgriwiau, batris, hadau, dwy goeden afalau, offer garddio a gwenwyn llygod.<br>• Prynu Freddos i Siôn.<br>• Argraffu cyfarwyddiadau ar y we – sut i wneud trap cwningod, tyfu llysiau, hen foddion traddodiadol.<br>• Prynu Pitsas yn Sbar. | • Wythnos ar ôl i'r trydan ddiffodd.<br>• Ffenestri Spar wedi eu chwalu.<br>• Siopau'n wag.<br>• Enwi'r Lion a'r Indian.<br>• Dim ceir - neb o gwmpas.<br>• Siswrn Arian – til wedi mynd.<br>• Drychau wedi eu malu a chadeiriau.<br>• Poteli siampŵ wedi arllwys a thorri'r sinciau.<br>• Bin wedi gwagio a chyrls ar lawr.<br>• Person- Dylan – cap du a chlwb golff yn y ffenest.<br>• Pawb di mynd i dre i chwilio am fwyd.<br>• Gwagio'r fferyllfa.<br>• Bomiau yn Llundain ac efallai yn nes Manceinion neu Lerpwl.<br>• Niwclear – Terfyn.<br>• Rowenna yn caledu.<br>• Llyfrau Cymraeg o'r llyfrgell.<br>• Llenwi cist y car a'r sedd gefn. |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **8-10** | • llwyddo i ddehongli'r testun yn dreiddgar a threfnus<br>• gwybodaeth fanwl am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n dreiddgar â theimladau'r cymeriadau<br>• *defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu yn sensitif ac yn briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **5-7** | • ymateb i'r testun yn fyw a threfnus<br>• dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n effeithiol â theimladau'r cymeriadau<br>• *dealltwriaeth dda o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **2-4** | • ymateb lled drefnus gyda chyffyrddiadau diddorol wrth ymateb i'r testun<br>• dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n eithaf da â theimladau'r cymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-1** | • dangos ymdrech i gyflwyno'n ddiddorol gan ddangos trefn mewn rhannau o'r gwaith<br>• dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i uniaethu â theimladau'r cymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth fras o ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |

**DIM**

4.1 Gellir sôn am ddigwyddiadau megis:

- Cariad rhwng Owain a Gwyn - yn arbennig yn fechgyn bach ar ôl marwolaeth eu tad - brodyr agos iawn, y ddamwain, yr ysgol.
- Cariad Richard Lloyd at ei ddau nai. Mae'n magu'r bechgyn ac mae ei addfwynder yn amlwg ar gychwyn y nofel. Mae'n gefn i Gwyn ar ôl iddo gael ei arestio, ac nid yw'n beirniadu Owain. Mae'n rhoi rhyddid i'r ddau wneud eu dewisiadau eu hunain ac mae'n eu parchu.
- Cariad Gwyn at ei wraig, Rhian a'i fab, Now.
- Cariad Gwyn at ei fro a'i wlad.
- Cariad Owain at ei wlad - ond Prydain, yn hytrach na Chymru.
- Cariad Gwyn at natur – golygfa Bwlch Maengwynedd efo Richard Lloyd.
- Cariad Owain at y fyddin a'r ffordd Brydeinig o fyw.

| | |
|---|---|
| **16-20** | • dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r testun<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn effeithiol i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• *cyflwyno gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **10-15** | • dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r testun<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn addas a phwrpasol i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol<br>• *cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-9** | • dangos dealltwriaeth eithaf da<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn eithaf da i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau<br>• *cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **0-3** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• cyfeirio at ambell ddigwyddiad/enghraifft<br>• defnyddio ambell ddyfyniad<br>• *cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |

4.2 Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Trosiad “yr hofrennydd yn gorff”.
- Cyffelybiaeth a rhestru “fel morfil modern, moduraidd”.
- Brawddeg fer “A llwyddodd.” “Aeth popeth yn wyn.” “Glaniodd.”
- Rhestru berfau amhersonol “Ac fe lwythwyd a gorlwythwyd.”.
- Berfau cryno yn cyflymu’r naratif “Gwyrodd… Edrychodd… Daliodd lygad, nodiodd, gwenodd. Mesurodd…”
- Cwestiwn rhethregol “Pam?”

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dadansoddi’n dreiddgar nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan gynnwys rhesymau perthnasol<br>• ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull/techneg a’r defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar |
| **5-7** | • trafod nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan roi rhai rhesymau<br>• trafod addasrwydd arddull/techneg a'r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda |
| **2-4** | • disgrifio nodweddion ffurf, cynllun, awyrgylch ac ymgeisio i fynegi barn am eu priodoldeb<br>• dangos dealltwriaeth o arddull/techneg a'r defnydd o iaith<br>• defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol |
| **0-1** | • ymgais i ddisgrifio rhai nodweddion megis ffurf, cynllun ac awyrgylch<br>• cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull/techneg a defnydd o iaith<br>• defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol |

© WJEC CBAC Cyf.

4.3 Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Cyfnod hapus iawn yn byw ym Mangor yn y Neuadd Gymraeg – sylweddoli ei fod fel pawb arall – yn wahanol i'r hyn brofodd yn Ysgol Dre – y bwlio am ei Gymreictod yno.
- Sylweddoli na fyddai Owain yn deall ei fod yn gwrthwynebu eu bod yn cyflogi pobl gwrth-Gymreig yn y Brifysgol.
- Wedi ei arestio am ddwyn y ffeiliau – roedd hefyd wedi cyfaddef wrth yr heddlu ei fod wedi dwyn y ffeiliau.
- Sylweddoli ei fod ef a'i frawd yn wahanol – ac yn gwybod mai uchelgais Owain oedd ymuno gyda'r SAS.
- Edrych ymlaen at fynd i Iwerddon ar y daith rygbi.

| | |
|---|---|
| **8-10** | • llwyddo i ddehongli'r testun yn dreiddgar a threfnus<br>• gwybodaeth fanwl am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n dreiddgar â theimladau'r cymeriadau<br>• *defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu yn sensitif ac yn briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **5-7** | • ymateb i'r testun yn fyw a threfnus<br>• dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n effeithiol â theimladau'r cymeriadau<br>• *dealltwriaeth dda o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **2-4** | • ymateb lled drefnus gyda chyffyrddiadau diddorol wrth ymateb i'r testun<br>• dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n eithaf da â theimladau'r cymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-1** | • dangos ymdrech i gyflwyno'n ddiddorol gan ddangos trefn mewn rhannau o'r gwaith<br>• dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i uniaethu â theimladau'r cymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth fras o ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |

© WJEC CBAC Cyf.

**Yn y Gwaed**

5.1 Gellir sôn am ddigwyddiadau megis:

- Cariad llosgachol rhwng Robin a'i chwaer - atyniad rhywiol ati, hunllefau, euogrwydd o gladdu eu baban yn achosi poendod cyson iddo, cenfigen Robin at Jeff.
- Cariad Mared at Robin, ei brawd.
- Cariad Mared at Y Fo yn y llofft stabl – Mared yn gofalu amdano fel mam, mynd â bwyd iddo ayyb.
- Cariad y Fam a Dewythr Ifan.
- Cariad Mared a Jeff – Mared yn beichiogi.
- Cariad Mared a Harri Llwyn-Crwn.
- Diffyg cariad rhwng Mam a'i phlant.
- Cariad Robin at ei fro a Cymreictod – llosgi'r Capel.

| | |
|---|---|
| **16-20** | • dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r testun<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn effeithiol i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• *cyflwyno gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **10-15** | • dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r testun<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn addas a phwrpasol i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol<br>• *cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-9** | • dangos dealltwriaeth eithaf da<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn eithaf da i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau<br>• *cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **0-3** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• cyfeirio at ambell ddigwyddiad/enghraifft<br>• defnyddio ambell ddyfyniad<br>• *cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |

© WJEC CBAC Cyf.

5.2 Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Cwestiynau rhethregol a'u hailadrodd gan Mam – ei hanghredinedd.
- Deialog gryno/sydyn yn cyfleu tymer y ddwy.
- Golygfa danllyd – rhwng Mared a'i Mam.
- Diffyg parch Mam yn amlwg – enwau/ rhegi "Yr hoedan."
- Ailadrodd y rhegi/enwau "hoedan / putan fach / hwran" – pwysleisio dicter y fam at ei merch.
- Berf "ffrwydrodd" yn dangos dicter Mared hefyd.

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dadansoddi'n dreiddgar nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan gynnwys rhesymau perthnasol<br>• ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull/techneg a'r defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar |
| **5-7** | • trafod nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan roi rhai rhesymau<br>• trafod addasrwydd arddull/techneg a'r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda |
| **2-4** | • disgrifio nodweddion ffurf, cynllun, awyrgylch ac ymgeisio i fynegi barn am eu priodoldeb<br>• dangos dealltwriaeth o arddull/techneg a'r defnydd o iaith<br>• defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol |
| **0-1** | • ymgais i ddisgrifio rhai nodweddion megis ffurf, cynllun ac awyrgylch<br>• cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull/techneg a defnydd o iaith<br>• defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol |

© WJEC CBAC Cyf.

5.3 Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Dweud wrth Robin am losgi ei holl ddyddiaduron – ysgrifennu yn y dyddiaduron oedd yr unig ffordd iddi ymdopi â'r bywyd unig yn Arllechwedd.
- Mam wedi atal Harri Llwyn Crwyn rhag dod i ymweld â nhw.
- Sôn am gyfrinach Y Garreg Wen – sut roedd Mam wedi gallu trefnu i'r babi bach gael ei ladd yn syth ganddo ef.
- Atgasedd at Mam – y modd yr oedd hi wedi eu caethiwo i fywyd yn Arllechwedd.
- Sôn am Ysbryd Dewyrth Ifan – ei bod wedi ei weld a'i fod wedi bod yn y gwely gyda hi.
- Mam ddim am iddi eni plentyn arall a'i bod wedi cyflawni erthyliad cartref arni.
- Ei bod yn poeni am ddyfodol Fo – pwy fyddai nawr yn mynd a'i fwydo tra ei bod hi'n sâl.

| | |
|---|---|
| **8-10** | • llwyddo i ddehongli'r testun yn dreiddgar a threfnus<br>• gwybodaeth fanwl am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n dreiddgar â theimladau'r cymeriadau<br>• *defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu yn sensitif ac yn briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **5-7** | • ymateb i'r testun yn fyw a threfnus<br>• dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n effeithiol â theimladau'r cymeriadau<br>• *dealltwriaeth dda o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **2-4** | • ymateb lled drefnus gyda chyffyrddiadau diddorol wrth ymateb i'r testun<br>• dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n eithaf da â theimladau'r cymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-1** | • dangos ymdrech i gyflwyno'n ddiddorol gan ddangos trefn mewn rhannau o'r gwaith<br>• dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i uniaethu â theimladau'r cymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth fras o ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |

**O Ran**

6.1 Gellir sôn am ddigwyddiadau megis:

- Perthynas Angharad a'i thad - meddwl y byd o'i thad, yn arbennig yn ystod ei phlentyndod pan mae'n ei magu. Teimlo'n saff gyda'i thad. Ond fel mae cyflwr ei thad yn dirywio, mae'r berthynas yn dirywio. Angharad yn ceisio amddiffyn ei thad yn aml e.e. pan ddaw'r beilïaid i'r tŷ mae hi'n trio cuddio'r botel wag.
- Y cariad rhwng Angharad a Myng-gu.
- Y cariad rhwng Angharad ac Anti June.
- Cariad Ifan at alcohol a sut mae'n ei ddefnyddio i guddio ei euogrwydd a'i broblemau.
- Cariad Ifan at ei swydd ac at ferched e.e. hanes Elena.
- Cariad Angharad at ei bywyd newydd gyda Rob a'i babi.
- Cariad Angharad at ei gwreiddiau yn Fron Faen, a Chaerdydd.

| | |
|---|---|
| **16-20** | • dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r testun<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn effeithiol i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• *cyflwyno gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **10-15** | • dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r testun<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn addas a phwrpasol i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol<br>• *cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-9** | • dangos dealltwriaeth eithaf da<br>• gallu cyfeirio at ddigwyddiadau/enghreifftiau yn eithaf da i ategu sylwadau<br>• defnyddio dyfyniadau<br>• *cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **0-3** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• cyfeirio at ambell ddigwyddiad/enghraifft<br>• defnyddio ambell ddyfyniad<br>• *cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |

© WJEC CBAC Cyf.

6.2 Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Brawddeg fer – "Roedd mynd i'r cwrdd nos yn antur."
- Defnydd o'r synhwyrau – arogl pobl a pholish.
- Rhestru cwestiynau – "Sawl un oedd yma? Sawl dyn? Sawl menyw?"
- Brawddegau byrion "Tynnodd anadl. A'i dal."
- Pregeth ddramatig '"Chi'n gweld," SAIB. "Mae Duw," SAIB "Medde Mathew" Yn gweld yn y dirgel!"'
- Synhwyrau – chwydu ei swper ar ei charffed.

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dadansoddi'n dreiddgar nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan gynnwys rhesymau perthnasol<br>• ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull/techneg a'r defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar |
| **5-7** | • trafod nodweddion megis ffurf, cynllun, awyrgylch a mynegi barn am eu priodoldeb gan roi rhai rhesymau<br>• trafod addasrwydd arddull/techneg a'r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol<br>• defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda |
| **2-4** | • disgrifio nodweddion ffurf, cynllun, awyrgylch ac ymgeisio i fynegi barn am eu priodoldeb<br>• dangos dealltwriaeth o arddull/techneg a'r defnydd o iaith<br>• defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol |
| **0-1** | • ymgais i ddisgrifio rhai nodweddion megis ffurf, cynllun ac awyrgylch<br>• cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull/techneg a defnydd o iaith<br>• defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol |

6.3 Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Wedi ei galw adref i weld Ifan Gwyn gan ei fod yn marw.
- Mynd i ddweud wrtho ei bod yn disgwyl ei babi cyntaf.
- Bywyd wedi bod mor greulon – colli Mam nad oedd wedi cael cyfle i'w hadnabod, Anti June a nawr yn wynebu colli ei thad.
- Ei hawydd i gael rhywun oedd yn "perthyn" iddi – cymaint roedd hi wedi edrych ymlaen at gael bod yn "fam" i Myfanwy'r crwban.
- Wedi gweld y dirywiad yn ei thad – heb fod yn "iawn" ers iddo dderbyn y gyfres o lythyrau cas yn dilyn Eisteddfod Caerdydd.
- Fel oedolyn ifanc wedi cuddio cymaint o'r gwir am ei broblemau gydag alcohol.

| | |
|---|---|
| **8-10** | • llwyddo i ddehongli'r testun yn dreiddgar a threfnus<br>• gwybodaeth fanwl am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n dreiddgar â theimladau'r cymeriadau<br>• *defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu yn sensitif ac yn briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **5-7** | • ymateb i'r testun yn fyw a threfnus<br>• dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n effeithiol â theimladau'r cymeriadau<br>• *dealltwriaeth dda o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **2-4** | • ymateb lled drefnus gyda chyffyrddiadau diddorol wrth ymateb i'r testun<br>• dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau<br>• uniaethu'n eithaf da â theimladau'r cymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-1** | • dangos ymdrech i gyflwyno'n ddiddorol gan ddangos trefn mewn rhannau o'r gwaith<br>• dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i uniaethu â theimladau'r cymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth fras o ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.